

EOS - YR ASIANTAETH HAWLIAU DARLLEDU CYF.

ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DRYLOYWDER

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31.12.22

Mae'r adroddiad yma wedi ei baratoi yn unol â gofynion y "Collective Management of Copyright (EU Directive) Regulations 2016".

Strwythur Cyfreithiol a Rheoleithol

Mae EOS - Yr Asiantaeth Hawliau Darlledu Cyf. (EOS) yn gwmni cyfyngedig trwy warant, sy'n cael ei redeg gan fwrdd o gyfarwyddwyr, sy'n cael eu penodi gan yr aelodau mewn Cyfarfod Cyffredinol. Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfansoddwyr, cyhoeddwyr neu yn aelodau eraill.

Adroddiad ar weithgareddau'r flwyddyn ariannol

Mae'r adroddiadau ariannol am y flwyddyn yn diweddau'r 31 Rhagfyr 2022 yn cynnwys adolygiad o'r gweithgareddau am y flwyddyn ar dudalen 3.

Ceisiadau am drwydded wedi eu gwrthod

Nid oedd unrhyw geisiadau am drwydded wedi eu gwrthod yn ystod 2022.

Aelodaeth o gyrff eraill / is gwmnïau

Nid oes gan EOS unrhyw is gwmnïau ac nid yw'n aelod o unrhyw gorff arall.

Tâl a buddiannau'r cyfarwyddwyr

Ni thalwyd unrhyw gyflog na buddiannau i'r cyfarwyddwyr am eu gwasanaeth fel cyfarwyddwyr. Mae holl aelodau'r bwrdd yn derbyn treuliau teithio i fynychu cyfarfodydd y bwrdd a chyfarfodydd eraill.

Didyniadau ar gyfer gwasanaethau Cymdeithasol, Diwylliannol ac Addysgol

Rhodddwyd rhodd o £5,000 i Cronfa Nawdd Eos Cyf., cwmni dan reolaeth Bwrdd Eos. Mae Cronfa Nawdd Eos Cyf. yn gwmni dan warant, gyda'r rhif cofrestredig 12076299. Sefydlwyd y cwmni gan Eos er mwyn dosbarthu grantiau i gefnogi, cynnal a hyrwyddo creu a pherfformio cerddoriaeth Gymreig a chynyddu gwerthfawrogiad ac addysg y cyhoedd mewn cerddoriaeth newydd.

Incwm Hawliau a Dosbarthiadau

Mae EOS yn casglu incwm ar gyfer 1 math o hawl yn unig sef hawl i ddarlledu.

2022

Hawliau Darlledu a gasglwyd yn y flwyddyn	£267,444	
Hawliau Darlledu ôl-ddyddiedig	(£18,023)	
	—————	
Hawliau Darlledu yn ymwneud a'r flwyddyn	£249,421	100%
Hawliau Darlledu sy'n perthyn i ddeiliaid hawliau	£199,535	80%

Didyniadau o incwm Hawlfraint - Comisiwn	£49,886	20%
Costau rheolaethau a gwasanaethau eraill	£42,282	17%
Hawliau Darlledu a dalwyd allan i'r rhan ddeiliaid	£223,864	
Hawliau Darlledu wedi eu dal yn ôl d/y	£155,089	
Hawliau Darlledu a ddalwyd yn ôl c/y	£148,783	

Mae dadansoddiad o gostau rheoli'r hawliau i'w gweld ar dudalen 12 o'r Adroddiadau Ariannol.

Mae ffioedd trwyddedau yn cael eu casglu yn fisol ymlaen llaw tra bod y dosbarthiadau i'r aelodau yn cael eu gwneud yn chwarterol ar eu hol hi. Fel arfer mae yna fwlch o chwe mis rhwng casglu'r incwm hawliau a'r amser y mae'n cael ei dalu allan, hyn oherwydd yr amser y mae'n cymeryd i brosesu data. Mae hyn yn esbonio pam fod gymaint o incwm hawliau heb ei talu allan. Mae symiau dibwys sy'n ddyledus i aelodau yn cael eu dal yn ôl tan mae'r swm sy'n ddyledus yn fwy na £10.

Cronfeydd wrth gefn

Mae gan y cwmni bolisi i gronni cronfeydd wrth gefn er mwyn talu costau gwrandawiaidau tribiwnlys posibl yn y dyfodol. Mae profiad blaenorol wedi dangos y gallai fod yn rhaid i'r cwmni fynd i'r tribiwnlys o bryd i'w gilydd er mwyn cael cytundeb rhesymol gyda thrwyddedigion. Gall gwrandawiaidau tribiwnlys gynnwys ffioedd cyfreithiol sylweddol.

I gyfarwyddwyr EOS – Yr Asiantaeth Hawliau Darlledu Cyf

Yr ydym wedi perfformio'r gweithdrefnau a gytunwyd gyda chi ac wedi'u rhestru isod o ran adroddiad tryloywder blynyddol EOS - Yr Asiantaeth Hawliau Darlledu Cyf ar gyfer y flwyddyn i'r 31 Rhagfyr 2022. Ymgwymerwyd â'n llythyr penodi yn unol â'r Safon Ryngwladol ar Wasanaethau Cysylltiedig sy'n gymwys i Ymgymryd â gweithdrefnau. Perfformiwyd y gweithdrefnau at ddibenion eich bod yn cydymffurfio â Rheoliad 21 (2) (b) o Reoliadau Hawlfraint Rheoli Ar y Cyd (Cyfarwyddeb yr UE) 2016 yn unig ac fe'u crynhoir yn Atodiad C: Cytundeb ar Weithdrefnau ar gyfer archwilio Adroddiad Tryloywder Blynyddol.

Rydym yn adrodd ein canfyddiadau isod:

- O ran eitem 2, cadarnhawn fod y balans yn cytuno.

Gan nad yw'r gweithdrefnau uchod yn cynnwys ymrwymadau a wneir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) na'r Safon Ryngwladol ar gyfer Ymgysylltiadau Adolygu (y DU ac Iwerddon), nid ydym yn mynegi unrhyw sicrwydd ar yr adroddiad tryloywder blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022.

Pe baem wedi perfformio gweithdrefnau ychwanegol neu gynnal ein gwaith yn unol ac ymrwymadau Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) neu'r Safon Ryngwladol ar gyfer Ymgysylltiadau Adolygu (y DU ac Iwerddon), efallai y bydd materion eraill wedi dod i'n sylw a fyddai wedi cael eich hysbysu chi.

Defnydd a phwrpas ein hadroddiad

Paratowyd ein hadroddiad ar gyfer defnydd EOS - Yr Asiantaeth Hawliau Darlledu Cyf ac at ddibenion ei gydymffurfiaid â Rheoliad 21 (2) (b) o Reoliadau Rheoli Ar y Cyd Hawlfraint (Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd) 2016 yn unig. Ni ddylai EOS - Yr Asiantaeth Hawliau Darlledu Cyf ddibynnu ar ein hadroddiad at unrhyw ddiben arall o gwbl. Ni baratowyd ein Hadroddiad er budd unrhyw barti heblaw EOS - Yr Asiantaeth Hawliau Darlledu Cyf. Nid yw WJ Matthews a'i fab yn dymuno nac yn derbyn unrhyw ddyletswydd i unrhyw barti arall (gan gynnwys unrhyw berchennog hawlfraint, etifeddion i berchnogion hawlfraint, asiantau neu drwyddedau) ac ni fyddwn yn atebol am unrhyw golled, niwed na chostau o unrhyw natur o gwbl a achosir gan ddibyniaeth ar ein Hadroddiad.

David Chidley
Uwch Archwilydd Statudol

WJ Matthews a'i fab
Cyfrifwyr Siartredig
11-15 Y Bont Bridd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1AB

Dyddiad: